# SL(6)765 - Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 9 (cyflenwyr gwladwriaeth gytuniad (cytundebau rhyngwladol penodedig)) i Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf 2023") (ochr yn ochr â Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026 Llywodraeth y DU) er mwyn gweithredu pennod caffael y Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Gweriniaeth India ("CEMC y DU ac India") a lofnodwyd yn Swydd Buckingham ar 24 Gorffennaf 2025.

Mae Atodlen 9 i Ddeddf 2023 yn rhestru cytundebau rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddynt ac sy'n cynnwys rhwymedigaethau caffael y mae rhaid rhoi effaith iddynt yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf 2023 er mwyn adlewyrchu darpariaethau CEMC y DU ac India.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol, fel na fydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw gaffaeliad o dan Ddeddf 2023 sy'n ymwneud â CEMC y DU ac India, pan fo'r caffaeliad wedi dechrau cyn y diwrnod y daw'r cytundeb hwnnw i rym.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025 (O.S. 2025/1361 (Cy. 223)) drwy fewnosod diffiniad yn y ddarpariaeth.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(1)(c), nid oes unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth ddiffinio na dehongli ar gyfer y term "framework". Nodwn fod hwn yn derm diffiniedig yn adran 45(2) o Ddeddf Caffael 2023. Rydym yn gofyn pam na chafodd diffiniad ei gynnwys yn y Rheoliadau hyn.

## Craffu ar Rinweddau

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio newidiadau i Atodlen 9 i Ddeddf 2023 a wneir gan Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026, y bwriedir iddynt ddod i rym ar 30 Mawrth 2026, un diwrnod cyn y Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025 drwy fewnosod diffiniad o "contract sydd o dan y trothwy". Nododd Llywodraeth Cymru y byddai'r diwygiad hwn yn cael ei wneud yn ei hymateb i bwynt adrodd technegol a godwyd ynghylch y Rheoliadau hynny.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol a nodir ym mharagraffau 3.3 i 3.5 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *3.3 Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y Deyrnas Unedig osod a gwneud offeryn cysylltiedig, sef "Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026".*
>
> *3.4 Mae'r rhan fwyaf o'r Offeryn Statudol hwn gan y DU (UKSI) yn rhoi effaith i CETA y DU-India ac nid oes angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y rheoliadau sy'n cael eu gosod a'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gweithredu CETA y DU-India mewn perthynas â chontractau yr ymrwymir iddynt o dan Ddeddf Caffael 2023.*
>
> *3.5 Er hynny, mae elfen fach o'r UKSI sy'n ymwneud â darpariaethau trosiannol ac arbed ac yn diwygio UKSI cyfredol o'r enw Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024. Mae'r elfen hon yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y canlynol a nodir ym mharagraff 8.1 o'r Memorandwm Esboniadol:

*Gan fod y Rheoliadau hyn yn ddiwygiadau technegol i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 5 wedi'i gynnal.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

**Ymateb y Llywodraeth:**

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd, ond mae'r canllawiau a nodir ym mharagraff 4.2(2) o Drafftio Deddfau i Gymru yn nodi "ni ddylid cynnwys diffiniad oni fydd yn helpu eglurder neu sicrwydd" ac rydym o'r farn bod y term "fframwaith" wedi ei hen sefydlu yng nghyd-destun caffael, a'i bod yn amlwg o gyd-destun penodol y Rheoliadau hyn at beth y mae'r term "fframwaith" yn cyfeirio yn y ddarpariaeth hon (DDiG 4.4(2)).

Mae'r dull hwn o ddrafftio yn gyson â'r hyn a wneir mewn is-baragraffau cynharach lle na roddir diffiniad ar gyfer cysyniadau fel "hysbysiad tendro" neu "hysbysiad tryloywder" ychwaith am yr un rheswm.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.